

Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Adroddiad Blynyddol 2023-24

Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



| | |
|--|----|
| Rhagair gan y Cadeirydd | 3 |
| 1. Cyflwyniad..... | 5 |
| 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2023/24 | 5 |
| 2.1 Y Rôl Graffu | 5 |
| 2.2 Diweddariad i'r Blaengynllun Gwaith | 6 |
| 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol..... | 7 |
| 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol..... | 7 |
| 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23 | 7 |
| 2.4.2 Adroddiadau Perfformiad 2023-24 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor..... | 8 |
| 2.4.3 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau..... | 8 |
| 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf | 8 |
| 2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb | 8 |
| 2.5.2 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2022-23 | 8 |
| 2.5.3 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 tan 2026/27..... | 8 |
| 2.6 Iechyd a Gofal Cymdeithasol. | 9 |
| 2.6.1 System Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru: Pa Mor Bell, Pa Mor Gyflym?..... | 9 |
| 2.6.2 Diweddariad Perfformiad Gofal Cartref..... | 9 |
| 2.6.3 Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd | 9 |
| 2.6.4 Adroddiad Perfformiad yn erbyn y Camau Gweithredu a'r Mesurau sy'n berthnasol i Weledigaeth y Cabinet..... | 10 |
| 2.6.5 Integreiddio yn Sir Gaerfyrddin - Diweddariad Sefyllfa ar Gyflawni yn erbyn Blaenoriaethau..... | 10 |
| 2.6.5 Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) (2022-23 | 11 |
| 2.6.6 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2022-2023 | 11 |
| 2.6.7 Polisi Diogelu Corfforaethol..... | 11 |
| 2.6.8 Strategaeth Atal Ar Gyfer Sir Gaerfyrddin | 12 |
| 2.7 Gwasanaethau Plant | 12 |
| 2.7.1 Cais gan y Cyhoedd am Adolygu Pwnc..... | 12 |
| 2.7.2 Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin 2023/24 | 13 |
| 2.7.3 Cymorth Cymunedol a Seibiannau Byr i Blant Anabl..... | 13 |
| 2.7.4 Sefyllfa Gyllidebol y Gwasanaethau Plant | 13 |
| 2.7.5 Y Strategaeth Cymorth i Deuluoedd..... | 14 |
| 2. Gweithgarwch Craffu Arall..... | 14 |
| 3.1 Gorchwyl a Gorffen | 14 |
| 3.2 Sesiynau Datblygu | 15 |
| 4. Effaith | 16 |
| 3.1 Sut mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni? | 16 |
| 5. Ymgysylltu â'r cyhoedd | 16 |

- 6. Heriau..... 17
- 7. Gwaith yn y Dyfodol 17
- 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu 18
- 9. Presenoldeb 19

Rhagair gan y Cadeirydd



A ninnau ar ddiwedd Blwyddyn y Cyngor arall, mae'n bleser gennyf fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac lechyd gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2023 - 2024 sy'n rhoi trosolwg o'r gwaith sylweddol a gyflawnwyd gan aelodau'r Pwyllgor dros y flwyddyn.

Bu nifer o newidiadau i'r aelodaeth dros y deuddeg mis diwethaf, gan gynnwys pan dderbyniais yr anrhydedd o fod yn Gadeirydd ar 13 Medi 2023. Nodir y newidiadau eraill ar dudalen 19 yr adroddiad a hoffwn ddiolch i'r holl aelodau, hen a phresennol, am eu hymrwymiad a'u cyfranogiad ym mhob cyfarfod a fynychwyd.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gynnal rhag-gyfarfodydd cyn cyfarfod ffurfiol y pwyllgor ac mae'r aelodau'n ystyried hyn yn werthfawr gan eu galluogi i gael dealltwriaeth drylwyr o'r materion cyn craffu yn fanwl ar eitemau'r agenda yn ystod y cyfarfod ei hun. Fel arfer, cynhelir y rhain ddiwrnod cyn y cyfarfod ffurfiol.

Mae gan bob aelod o'r pwyllgor gyfle i roi mewnbwn i Flaengynllun Gwaith y cytunwyd arno ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn ac ychwanegir eitemau yn ôl yr angen. Mewn ymgynghoriad â swyddogion, mae adolygu a monitro'r Blaengynllun Gwaith yn agwedd bwysig ar gylch gwaith y Pwyllgor.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr ystod eang o feysydd sy'n darparu gwasanaethau a gyflwynwyd ac a ystyriwyd yn briodol yn ystod y flwyddyn ynghyd â monitro cyllidebau, data perfformiad, trefniadau sicrhau ansawdd a diweddariadau cynnydd y gofynnir amdanynt yn benodol ar faterion allweddol megis integreiddio â maes lechyd a chamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â sefyllfa cyllideb Gwasanaethau Plant.

Rwyf i, ac aelodau'r pwyllgor yn cydnabod bod y meysydd gwasanaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn gweithredu mewn amgylchedd heriol tu hwnt, gan wynebu'n ddi-baid yr hyn a ddisgrifir yn aml fel y "storm berffaith" o angen cynyddol, prinder staff, anawsterau recriwtio yn ogystal â wynebu costau mawr a godir gan rai o ddarparwyr y sector preifat sy'n gweithio mewn marchnad genedlaethol ddiffygiol. Gan ychwanegu hefyd y problemau sy'n wynebu'r maes lechyd yna, mae'n anochel er gwaethaf ymdrechion gorau pawb, bod gwasanaethau'n wynebu'r her aruthrol o geisio cydbwysu'r gofyniad i fynd i'r afael â'r galw cynyddol o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd yn erbyn y peryglon sy'n gysylltiedig ag angen nad yw'n cael ei ddiwallu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion Llesiant i gyd yn pwysleisio'r angen am fwy o gydweithio â phartneriaid a'n cymunedau wrth ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i fynd i'r afael â'r galw cynyddol. Mae hyn wedi bod yn wir erioed o ran darparu Gofal Cymunedol ac wrth ystyried yr heriau ôl-covid a ddisgrifir yn y paragraff blaenorol, mae'r Pwyllgor, drwy'r Blaengynllun Gwaith, wedi ymdrechu i sicrhau bod adroddiadau cynnydd rheolaidd ar y nodau cydweithredol hyn yn cael eu hadrodd a bod y pwyllgor yn craffu arnynt.

Wrth sôn am thema amlasiantaeth debyg, roedd gweld cyhoeddi data brawychus mai Sir Gaerfyrddin oedd â'r lefelau uchaf o blant dros bwysau yng Nghymru wedi arwain at y Pwyllgor yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen penodol i dynnu sylw ac i ymchwilio i'r hyn y gellid ei wneud yn realistig ac yn uniongyrchol gan yr awdurdod i ddechrau mynd i'r afael â'r mater hwn. Cynhaliodd grŵp trawsbleidiol o saith Cynghorydd ymarfer cwmpasu ac yn ystod chwe chyfarfod cafwyd tystiolaeth ymchwil a mewnbwn gan ystod o weithwyr proffesiynol ym maes lechyd y Cyhoedd, Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda, Athrofa Rheolaeth ac lechyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a swyddogion o wasanaethau Addysg, Gwasanaethau Plant, Adfywio a Hamdden. Bu'r Aelodau hefyd yn adolygu llenyddiaeth berthnasol a chysylltu hyn hefyd â nifer o strategaethau presennol a datblygol (Strategaeth Mamolaeth a Blynnyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru, Strategaeth Fwyd Leol a Strategaeth Atal).

Mae'r adroddiad Gorchwyl a Gorffen o ganlyniad yn cynnig 7 argymhelliad gyda 37 o is-gamau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Craffu ym mis Mai. Bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried ddiwedd yr Haf/dechrau Hydref 2024.

Hoffwn estyn fy niolch diffuant i'r Cynghorydd Tremlett, Aelod Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r holl Swyddogion sydd wedi bod yn bresennol, ac sydd wedi darparu esboniadau, cyngor arbenigol a mewnbwn cyffredinol yn ein cyfarfodydd Craffu drwy gydol y flwyddyn. Diolch yn arbennig i'n Swyddog Cymorth Democrataidd gwerthfawr, Emma Bryer, am ei harweiniad proffesiynol a'i chefnogaeth gyffredinol i sicrhau bod y cyfarfodydd yn rhedeg yn hwylus.

Yn olaf, nid gor-ddweud yw nodi ei bod yn gyfnod heriol dros ben i bawb sy'n gysylltiedig ag lechyd a Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd. Fel pwyllgor, hoffem ddiolch i'r holl staff am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u gwaith caled diflino wrth geisio sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i ddarparu'r gofal mwyaf priodol i'r rhai y mae ei angen arnynt ac y mae ganddynt hawl iddo.

Diolch yn fawr i chi gyd.

Y Cynghorydd Gareth John
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu "*baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol*".

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd Gareth John ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Mae Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n ofynnol er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2023/24

2.1 Y Rôl Graffu

Diweddarwyd meysydd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am graffu ar bortffolio lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cabinet a'r meysydd gwasanaeth perthnasol fel y nodir isod:-

| | |
|--|--|
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | Heneiddio'n dda |
| Gofal Preswyl gan gynnwys cartrefi preswyl mewnol | Asesu a Rheoli Gofal |
| Gofal Cartref gan gynnwys gofal cartref mewnol a gwasanaethau ailalluogi | Pobl Hŷn ac eiddilwch |
| Anabledau Dysgu | Gwasanaethau Integredig gan gynnwys cyswllt â'r GIG a chydweithio rhwng ieuchyd a gofal cymdeithasol |
| Iechyd Meddwl | Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau |
| Taliadau Uniongyrchol | Aelod o'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc |

| | |
|---|---|
| Gofalwyr | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| Gofal Dementia | Arweinydd Rhianta Corfforaethol |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant | Gwasanaethau Cymorth Cymunedol |
| Diogelu Oedolion | Gwasanaethau Maethu |
| Gwasanaethau Mabwysiadu | Seibiant |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | Strategaeth Atal |
| Comisiynydd Pobl Hŷn | Cefnogi Teuluoedd |
| Gwasanaethau a Gomisiynir | Diogelu Plant |
| Y Blynyddoedd Cynnar, Cymorth i Deuluoedd ac Atal | Anghenion Cymhleth a Phontio |
| Rhianta a Llesiant Plant | Cydlynnydd Amddiffyn Plant |
| Diogelu (Gorllewin y Sir) a Mabwysiadu | Diogelu (Dwyrain y Sir) a Gwella Gwasanaethau |
| Hyrwyddwr Ystyried Pobl Hŷn | Diogelu Corfforaethol (ers 13/11/23) |

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor;
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol;
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisiau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

2.2 Diweddariad i'r Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisiau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ei hun ar gyfer blwyddyn y cyngor 2023/24 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor ddsbarthu adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Trefnir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Blaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 8 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Ymchwiliadau Craffu Un Diwrnod ac ymweliadau safle â sefydliadau a ddaw o fewn ei faes gorchwyl ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23

Yn unol â'r gofyniad statudol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu adroddiad blynyddol ar ddarparu gwasanaethau, perfformiad a chynlluniau gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, dosbarthwyd adroddiad drwy e-bost i'w ystyried gan y Pwyllgor ym mis Hydref 2023.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y gwasanaethau oedolion yn adfer o'r pandemig ac wedi bod dan straen difrifol, yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau. Nodwyd mai cyflwr cyffredinol y farchnad gyflogaeth oedd achos yr anawsterau recriwtio, gan nad oedd digon o bobl o oedran gweithio i wneud y swyddi ar draws pob sector.

Un maes allweddol o bryder oedd mewn perthynas â phlant ag anableddau lle gwelwyd cynnydd yn y galw gan deuluoedd ac roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant hefyd wedi cynyddu.

Canlyniad:

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

2.4.2 Adroddiadau Perfformiad 2023-24 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor eu dosbarthu drwy e-bost i aelodau fel a ganlyn:-

- Rhagfyr 2023 - Monitro Perfformiad Chwarter 2 2023/24
- Mawrth 2024 - Monitro Perfformiad Chwarter 3 2023/24

Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

2.4.3 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor gwnaed ceisiadau am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu.

2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, dosbarthwyd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol i aelodau fel a ganlyn:-

- Hydref 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Chwefror 2023;
- Tachwedd 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2023.
- Ionawr 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2023
- Mawrth 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Rhagfyr 2023
- Mai 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 29 Chwefror 2024.

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

2.5.2 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2022-23

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2022/23 a oedd yn rhoi sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn i'r Pwyllgor. Nodwyd bod y Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dangos amrywiant net o -£6,254k o gymharu â chyllideb gymeradwy 2022/23.

2.5.3 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 tan 2026/27

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr

2024. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/2026 a 2026/27.

Canlyniad:

Fel rhan o ymgynghoriad eang yr Awdurdod a gynhaliwyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24, roedd y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Strategaeth a'r Crynhoad Taliadau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024.

2.6 Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

2.6.1 System Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru: Pa Mor Bell, Pa Mor Gyflym?

Ym mis Mehefin 2023, bu'r Pwyllgor yn adolygu'r adroddiad oedd yn manylu ar y cyfleoedd yn Sir Gaerfyrddin i ddatblygu a gweithredu system iechyd a gofal ar gyfer pobl hŷn ar sail 'yr hyn sy'n bwysig' i'r boblogaeth hon ac a fyddai'n addas at y diben yn awr ac yn y dyfodol. Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rhian Matthews (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Cyngor Sir Gâr - Cyfarwyddwr System Integredig.

Nododd y Pwyllgor fod Cytundeb Adran 33 rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a oedd yn cefnogi strwythur rheoli integredig ar draws iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol i oedolion hŷn a datblygu llwybrau gofal integredig (Cartref yn Gyntaf)

Canlyniad:-

Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r cynnig a'r cynllun lefel uchel i'r Cabinet.

2.6.2 Diweddariad Perfformiad Gofal Cartref

Ym mis Mehefin, Tachwedd a Mai 2024 bu'r Pwyllgor yn adolygu adroddiad diweddaru ar berfformiad yr oedd wedi gofyn amdano yn ymwneud â'r pwysau presennol ar ofal cartref, a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar ryddhau cleifion o ysbytai. Bwriad yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd bod cleifion yn cael cefnogaeth ddiogel i adael yr ysbyty ac roedd yn amlinellu'r pwysau a sut roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymateb i'r pwysau hynny.

Canlyniad:

Derbyniwyd yr adroddiad ym mis Mehefin gyda diweddariadau yn cael eu darparu yn y dyfodol ar gyfer monitro parhaus - cafodd yr adroddiadau ychwanegol hyn eu hystyried ym mis Tachwedd 2023 a Mai 2024.

2.6.3 Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd

Mae'r Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd yn rhoi gweledigaeth i aelodau ar sut y byddai'r Cyngor yn darparu'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol dros y degawd nesaf. Mae'r ddogfen yn manylu ar y Datganiad Gweledigaeth, y gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn, Modelau Gofal Gwaith Cymdeithasol, Diogelu, Integreiddio a Phartneriaethau, y Gweithlu a Chynllun Gweithredu. Roedd yn fwriad i'r

adroddiad hwn gael ei dderbyn yn wreiddiol gan y Pwyllgor ym mis Mehefin 2023 ac yna ym mis Hydref 2023, Rhagfyr 2023, Ionawr 2024 a Mawrth 2024.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y byddai'n anodd datblygu strategaeth 10 mlynedd yn yr hinsawdd bresennol a chytunodd y byddai'r adroddiad yn cael ei dderbyn yn y flwyddyn gyngor nesaf.

Canlyniad:

Penderfynwyd gohirio'r strategaeth tan y flwyddyn gyngor nesaf.

2.6.4 Adroddiad Perfformiad yn erbyn y Camau Gweithredu a'r Mesurau sy'n berthnasol i Weledigaeth y Cabinet.

Craffodd y Pwyllgor ar yr adroddiad perfformiad yn erbyn y Camau Gweithredu a'r Mesurau a oedd yn manylu ar gynnydd y rhai a gyflawnwyd ar gyfer Gweledigaeth y Cabinet. Derbyniwyd adroddiadau ym mis Hydref 2023 (trwy e-bost), Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024.

Canlyniad:

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiadau. Gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r problemau gyda chanran y bobl a gyfeiriwyd at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. Dosbarthwyd data a gyhoeddwyd yn dangos cyfraddau marwolaeth yn sgil hunanladdiad tybiedig i'r pwyllgor er gwybodaeth.

2.6.5 Integreiddio yn Sir Gaerfyrddin - Diweddariad Sefyllfa ar Gyflawni yn erbyn Blaenoriaethau

Ym mis Ionawr 2024, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn nodi'r datganiad sefyllfa ar Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin ac yn benodol, rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau penodol a nodwyd i gyflawni system gofal cymunedol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Nododd y Pwyllgor fod gwaith Integreiddio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen ddi-dor i'r cyhoedd. Ni welwyd cynnydd ar yr integreiddio strategol ehangach o ran yr hyn a ragwelwyd y llynedd oherwydd pwysau ariannol sylweddol ac ad-drefnu ar lefel weithredol yn y Bwrdd Iechyd.

Canlyniad:

Yn dilyn cyflwyniad gan Dr Sioned Richards (Arweinydd Meddygon Teulu, Gofal Canolraddol Sir Gaerfyrddin) ac Indeg Jameson (Ffisiotherapydd Tîm Ymateb Acíwt) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, roedd y Pwyllgor wedi ystyried a nodi'r adroddiad.

2.6.5 Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) (2022-23)

Ym mis Mawrth 2024, cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn manylu ar y rôl, y swyddogaethau a'r gweithgareddau a wnaed gan yr Awdurdod mewn perthynas â Diogelu Oedolion a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ystod blwyddyn ariannol 2022/2023. Roedd yr adroddiad yn manylu ar gyd-destun presennol Diogelu/DoLS a'r trefniadau yr oedd yr Awdurdod Lleol wedi'u rhoi ar waith.

Canlyniad:

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.

2.6.6 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2022-2023

Ym mis Mawrth 2024, cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi trosolwg o amcanion a chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y canlyniadau a bennwyd gan CYSUR a CWMPAS fel rhan o'r Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd.

Canlyniad:

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.

2.6.7 Polisi Diogelu Corfforaethol

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r Polisi Diogelu Corfforaethol sy'n nodi'r cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl ac yn sefydlu strwythur llywodraethu a oedd yn goruchwyllo'r trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl.

Mae'n nodi'r dulliau a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau a bod arferion effeithiol ar waith i gynorthwyo unigolion i fyw eu bywyd yn rhydd o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod mewn ystod eang o leoliadau gan gynnwys y cartref, yr ysbyty, yr ysgol, amgylcheddau dysgu, grwpiau cyfoedion/cyfeillgarwch, cymdogaethau, cymunedau a mannau ar-lein.

Canlyniad:

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a chynhaliodd sesiwn briffio a datblygu ymwybyddiaeth i bob aelod ar 8 Mai.

2.6.8 Strategaeth Atal Ar Gyfer Sir Gaerfyrddin

Ym mis Mawrth 2024, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr oedd wedi gofyn amdano ynghylch y sefyllfa bresennol yn ymwneud â datblygu'r Strategaeth Atal ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Nododd y Pwyllgor nad oedd strategaeth atal ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Sir Gaerfyrddin nac ar gyfer Rhanbarth Hywel Dda a'r adroddiad agosaf o natur debyg oedd 'Atal, Ymyrraeth Gynnar, Hyrwyddo Byw'n Annibynnol Sir Gaerfyrddin: Cymuned Gydnerth' a ddatblygwyd yn 2016. Felly, cydnabuwyd bod angen strategaeth atal wedi'i diweddarau a oedd yn ystyried y sefyllfa bresennol ac yn nodi'r weledigaeth atal ar gyfer y dyfodol.

Canlyniad:

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.

2.7 Gwasanaethau Plant

2.7.1 Cais gan y Cyhoedd am Adolygu Pwnc

Mae Rheol Weithdrefn Graffu 10 (3) yn caniatáu i aelod o'r cyhoedd ofyn am roi eitem sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Craffu ar ei agenda. Ym mis Tachwedd 2023, bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Alex Williamson o Ymddiriedolaeth WAVE yn gofyn y canlynol i'r Pwyllgor:

- a oedd unrhyw fylchau yn y darpariaethau presennol oedd ar waith yn Sir Gaerfyrddin yn ymwneud â'r cyfnod cyngenedlu a chymorth blynyddoedd cynnar.
- a oedd unrhyw fylchau yn y darpariaethau presennol oedd ar waith yn Sir Gaerfyrddin o ran gwasanaethau rheng flaen megis tai, refeniw a budd-daliadau a gwasanaethau cysylltiedig fel y Ganolfan Byd Gwaith ynghylch gweithredu arferion ymwybodol o drama a/neu ddulliau ymwybodol o drama.

Dywedodd Mr Williamson wrth y Pwyllgor fod Ymddiriedolaeth WAVE ers 2010 wedi bod yn ymgyrchu i leihau lefel y plant oedd wedi profi camdriniaeth ac esgeulustod ar draws y DU o leiaf 70% erbyn 2030.

Er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor wrth ystyried y cais, lluniwyd adroddiad yn manylu ar grynodedb y ddarpariaeth bresennol.

Canlyniad:

Cytunodd y Pwyllgor fod gweithio mewn partneriaeth y tu allan i friff y Pwyllgor Craffu ond gallai fod yn rhywbeth y gallai'r Tîm Comisiynu ei ystyried. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd i gynorthwyo i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud wrth fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth bresennol.

2.7.2 Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin 2023/24

Ym mis Rhagfyr 2023, bu'r Pwyllgor yn adolygu Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yr Awdurdod ar gyfer 2023/24.

Roedd y Cynllun yn amlinellu'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a ddarparwyd o dan un strwythur rheoli, a oedd yn darparu dull cyfannol o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid ledled Sir Gaerfyrddin. Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid hefyd yn manylu ar berfformiad y bartneriaeth yn ystod 2023/24 a hefyd yn nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion cynllunio gwelliannau yn unol â'r egwyddorion 'plentyn yn gyntaf' cyffredinol ac ethos o welliant parhaus.

Nododd y Pwyllgor ei bryderon bod bron i 70% o'r gwasanaeth yn ddibynnol ar gyllid grant.

Canlyniad:

Cytunodd y Pwyllgor bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

2.7.3 Cymorth Cymunedol a Seibiannau Byr i Blant Anabl

Ym mis Mawrth 2024 bu'r Pwyllgor yn adolygu ac yn asesu'r adroddiad a oedd yn nodi'r model gwasanaeth cyfredol, y galw am wasanaethau a sut y dyrennir adnoddau.

Amlygwyd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y galw am asesiad a chymorth gan deuluoedd â phlant anabl ers y pandemig COVID19. Mae hyn wedi arwain at restrau aros hir ar gyfer ein darpariaeth seibiant byr preswyl yn Llys Caradog a'r Blaenau a chynnydd sydyn mewn gwariant ar daliadau uniongyrchol a chymorth cymunedol.

Canlyniad:

Cytunodd y Pwyllgor bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

2.7.4 Sefyllfa Gyllidebol y Gwasanaethau Plant

Ym mis Mawrth 2024, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr oedd wedi gofyn amdano yn dilyn pryderon ynghylch y sefyllfa bresennol yn y Gwasanaethau Plant. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno cefndir a chyd-destun y sefyllfa gyllidebol.

Nodwyd bod y Gwasanaethau Plant, yn chwarter cyntaf 2023-2024, wedi rhoi gwybod am orwariant amcanol o £5.3 miliwn mewn perthynas â chyllideb gyffredinol o £23 miliwn. O ganlyniad, comisiynwyd ac arweiniwyd adolygiad gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal dadansoddiad mewn perthynas â'r elfennau sy'n ysgogi'r galw a chanolbwyntio ar feysydd lle bu gorwariant sylweddol. Nododd y Pwyllgor fod Cynllun Trawsnewid wedi'i lunio o'r dadansoddiad hwnnw a oedd yn ceisio rheoli'r galw yn y dyfodol a sicrhau cyllideb gytbwys.

Canlyniad:

Cytunodd y Pwyllgor y dylid derbyn yr adroddiad a gofynnodd am gael adroddiadau diweddar ym mhob pwyllgor craffu.

2.7.5 Y Strategaeth Cymorth i Deuluoedd

Ym mis Mai 2024 bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr oedd wedi gofyn amdano yn dilyn sylwadau gan Ymddiriedolaeth WAVE yn gofyn i'r Pwyllgor edrych a oedd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a'r cymorth presennol o ran y cyfnod cyn-cenhedlu a chymorth blynyddoedd cynnar.

Nododd yr adroddiad fod y Strategaeth Cymorth i Deuluoedd presennol i fod i gael ei diweddarau. Fel rhan o'r broses ehangach o drawsnewid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd byddai system Dull Cymorth Cynnar yn cael ei gweithredu. Roedd yr adroddiad a gafwyd yn nodi'r rhesymeg, y dull a'r amserlen ar gyfer datblygu'r Strategaeth Cymorth Gynnar.

Canlyniad:

Gofynnodd y Pwyllgor am gael rhagor o ddiweddariadau a'u cynnwys ar y Blaengynllun Gwaith ar gyfer 2024/25.

2. Gweithgarwch Craffu Arall

3.1 Gorchwyl a Gorffen

Pwrpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw cyfrannu at ddatblygu polisi newydd neu ymgymryd â darn o waith craffu ymchwiliol. Mae grwpiau o'r fath wedi bod yn allweddol wrth gryfhau datblygiad polisi / rolau craffu ymchwiliol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod blwyddyn y cyngor, fel rhan o'i rôl ymchwiliol, aeth y Pwyllgor ati i lunio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynnal adolygiad i'r cynnydd mewn gordewdra ymhlith plant yn Sir Gaerfyrddin. Teitl y prosiect oedd 'Dechrau Egnïol ac Iach - grŵp 0-11 oed'. Cafodd y ddogfen gynllunio a chwmpasu ei chymeradwyo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023.

Amcanion a chwmpas yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen oedd:

- Adolygu'r materion sy'n ymwneud â'r cynnydd mewn gordewdra ymhlith plant yn Sir Gaerfyrddin.
- Prif Nodau
 - Adolygu'r adnoddau presennol
 - Sefydlu pa mor effeithiol y mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni canlyniadau
 - Deall maint y broblem a nodi achos sylfaenol y materion yn Sir Gaerfyrddin
 - Datblygu dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â gordewdra i wella iechyd a llesiant plant yn Sir Gaerfyrddin
- Llunio argymhellion i'w hystyried gan y Cabinet.

Roedd aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 7 aelod etholedig a benodwyd i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfarwydd, cyn belled ag y bo modd:-

| Grŵp | Y Cyngorydd |
|--|---|
| Plaid Cymru: | Hazel Evans (Cadeirydd tan 13/09/23) Meinir James Gareth John (Cadeirydd o 13/09/23) Hefin Jones |
| Annibynnol Heb Gysylltiad Pleidiol: | John Jenkins (ymddiswyddodd 18/01/24) |
| Grŵp Llafur: | Michelle Donoghue Rob Evans (ymddiswyddodd 08/11/23) |
| Y Grŵp Annibynnol: | Louvain Roberts |

Cyfarfu'r Grŵp ar 9 achlysur rhwng Mai 2023 a Mawrth 2024 a arweiniodd at lunio 7 argymhelliad.

Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod ym mis Mai. Bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried ddiwedd Haf 2024.

3.2 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:-

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Seminar |
|-----------|---|
| 21/06/23 | Atgyweiriadau Tai |
| 07/08/23 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Ymgynghoriad ar Wasanaethau Brys ac Argyfwng i Blant a Phobl Ifanc yn Ysbytai Llwynhelyg a Glangwili |
| 13/09/23 | Cymorth Trechu Tlodi |
| 08/11/23 | Rheoli'r Trysorlys |
| 22/11/23 | T.G. Strategaeth Ddigidol a Deallusrwydd Artiffisial |
| 30/11/23 | Hyfforddiant Geodiscoverer |
| 06/12/23 | Lle a Seilwaith - Diweddariadau am y Gwasanaeth |
| 07/12/23 | Hyfforddiant Geodiscoverer |
| 08/12/23 | Trawsnewid Digidol |
| 09/01/24 | Deallusrwydd Artiffisial a Strategaeth Ddigidol |
| Ionawr 24 | Ymgynghoriadau Amrywiol am y Gyllideb |
| 23/02/24 | Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth (hefyd 26/04 a 07/03) |
| 06/03/24 | Cyfrifoldeb Llifogydd |
| 08/05/24 | Diogelu Corfforaethol |

Yn ogystal â'r sesiynau / seminarau Datblygu Corfforaethol uchod, cynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau pwrpasol canlynol:

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Seminar |
|----------|--|
| 07/06/23 | Awtistiaeth |
| 04/10/23 | Trosolwg o'r Gwasanaethau Plant |
| 28/11/23 | Datblygu Craffu yn y Dyfodol a'r Blaengynllun |
| 08/02/23 | lechyd Meddwl gan gynnwys Hunanladdiad a Hunan-Niwedio [gohiriwyd i 13/06/24] |
| 02/05/24 | Blaen-gynllun |

4. Effaith

3.1 Sut mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r mwyafrif o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o gynghorwyr eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol'. Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisiâu a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet. Mae Craffu hefyd yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisiâu'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae Craffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau y mae pobl a phlant Sir Gaerfyrddin yn eu defnyddio. Hefyd mae'r swyddogaeth graffu'n ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisiâu'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad trigolion lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon trigolion.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24, mae'r Pwyllgor Craffu lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:-

- Sicrhau bod polisiâu sydd wedi'u diweddarau ar waith i ddiogelu'r henoed a'r rhai agored i niwed yn y sir.
- Ymgymryd â'r rôl fel "porthgeidwaid" a sicrhau bod y materion cyllidebol yn cael sylw ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.

5. Ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan aelodau'r cyhoedd yn ystod 2023/24, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynllun Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:-

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/>

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran gyfathrebu'r Awdurdod gymorth marchnata digidol i swyddogaeth graffu yr Awdurdod gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i godi ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

6. Heriau

Roedd adrannau Cymunedau a Gwasanaethau Plant wedi parhau i fod dan bwysau drwy gydol blwyddyn y cyngor oherwydd y galw ar wasanaethau. Serch hynny, mae'r adrannau wedi addasu a datblygu atebion arloesol yn ystod amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o ran craffu ar berfformiad, sydd wedi hwyluso'r adran ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at bolisiau a phenderfyniadau. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

7. Gwaith yn y Dyfodol

Gan fod yr Awdurdod yn parhau mewn cyfnod o adfer yn dilyn y pandemig coronafeirws, mae'n amlwg bod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithredu egwyddorion y Ganolfan Lywodraethu a Chraffu er mwyn cael proses graffu syml a phenodol.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor mewn sesiwn cynllunio datblygu a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o fonitro'r Blaengynllun Gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd.

8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- Llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith;
- darparu cymorth a chynghor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chynghor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;
- rhoi cynghor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlynid a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- Cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Blaengynlluniau Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk.

9. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod blwyddyn gyngor 2023/24 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 8 cyfarfod yn ystod blwyddyn y Cyngor 2023/24.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|--------------------------------------|-------------------------|-----|
| Cyng. Bryan Davies | 2 | 25 |
| Cyng. Crish Davies (o 08/11/23) | 2 (allan o 5) | 40 |
| Cyng. Karen Davies | 5 | 63 |
| Cyng. Michelle Donoghue | 8 | 100 |
| Cyng. Rob Evans (hyd at 08/11/23) | 1 (o 3) | 30 |
| Cyng. Alex Evans | 8 | 100 |
| Cyng. Hazel Evans (hyd at 13/09/23) | 2 | 100 |
| Cyng. Meinir James | 7 | 88 |
| Cyng. John Jenkins (hyd at 18/01/24) | 1 (o 5) | 20 |
| Cyng. Gareth John (o 13/09/23) | 6 (o 6) | 100 |
| Cyng. Hefin Jones | 7 | 88 |
| Cyng. Denise Owen | 7 | 88 |
| Cyng. Louvain Roberts | 6 | 75 |
| Cyng. Fiona Walters | 7 | 88 |
| Cyng. Phil Warlow | 8 | 100 |
| Cyng. Janet Williams | 8 | 100 |

| Dirprwyon | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|--|-------------------------|
| Cyng. Peter Hughes Griffiths | 2 |
| Cyng. Kim Broom | 1 |
| Cyng. Tyssul Evans | 4 |
| Cyng. Michael Thomas | 1 |
| Aelodau'r Cabinet | Cyfarfodydd a fynychwyd |
| Cyng. Jane Tremlett (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) | 7 |
| Cyng. Alun Lenny (Adnoddau) | 4 |

Gorchwyl a Gorffen

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|--------------------------------------|--------------------------------|
| Cyng. Michelle Donoghue | 5 |
| Cyng. Rob Evans (hyd at 08/11/23) | 2 |
| Cyng. Hazel Evans (hyd at 13/09/23) | 2 |
| Cyng. Meinir James | 5 |
| Cyng. John Jenkins (hyd at 18/01/23) | 1 |
| Cyng. Gareth John (o 13/09/23) | 5 (o 6) |
| Cyng. Hefin Jones | 3 |
| Cyng. Louvain Roberts | 3 |